Rhifyn Mehefin_Tud 8 Mehefin.qxd 08/05/2015 13:57 Page 1


# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 1 MEHEFIN 2015 50c


## Croesawu Plant Ysgol Gymraeg yr Hendre, Trelew

Dyma lun o'r disgyblion o Ysgol Gymraeg yr Hendre, sydd yn bwriadu fod yn bresennol yng Ngŵyl y Mimosa ar bnawn Sadwrn, 30 Mai. Ceir cyfle i'w clywed yn canu ger y Gofeb yn Princes Dock. Bwriadant fynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili cyn dod ar bnawn Gwener i Lerpwl. Caiff bobl yr Ŵyl gyfle i'w clywed yn Oedfa'r Bore, 31 Mai am 10.30 o'r gloch yng Nghapel Ysgol Uwchradd Bleuecoat. Y pnawn hwnnw bydd y Plant a'r Athrawon yn teithio i Wersyll yr Urdd yng Nglanllyn lle byddant yn aros cyn mynd ymlaen i Gaernafon, perfformio yn y Galeri, a mwynhau y fro Gymraeg cyn ail ddychwelyd yr holl ffordd i Drelew yn y Wladfa. Bydd y daith yn brofiad mawr iddynt ac i ninnau a gaiff y pleser o'i croesawu a'i clywed yn ein plith. Croeso twymgalon iddynt atom.




*Ysgol yr Hendre, Trelew, Chubut*

## Y LLAWLYFR AR WERTH

Y mae Llawlyfr byr Ŵyl wedi ei gyhoeddi ar 1 Mai 2015 ac felly ar werth gan y Golygydd, Dr. D. Ben Rees neu o law Mrs Beryl Williams sydd yn gyfrifol amdanynt yn yr Ŵyl.


Y mae'r Llawlyfr yn 60 tudalen, yn cynnwys ysgrifau yn Gymraeg a Saesneg, cyfarwyddiadau, manylion am y cyfarfodydd, emynau'r Gymanfa ac oedfa bore Sul. Gellir archebu llawlyfr ymlaen llaw o 32 Garth Drive, Allerton, L18 6HW neu benatgarthdrive@talktalk.net neu yn ystod yr Ŵyl gan Mrs Beryl Williams.


Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi
*(Merseyside Welsh Heritage Society)*
yn cyflwyno

**Rhaglen Dathlu a Llawlyfr Gŵyl y Mimosa a Dathlu Canmlynedd a Hanner y Wladfa**
***(Handbook of the Mimosa Festival and 150 years of Patagonia)***

**yn Lerpwl / in Liverpool**
**o/from**
**Nos Wener / Friday night 29 Mai/29 May**
**i bnawn Sul / Sunday afternoon, 31 Mai/31 May**

*Golygydd/Editor:*
Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees, FR.Hist. /
Reverend Professor Dr. D. Ben Rees



Pris / Price: £3


### YN Y RHIFYN HWN:

Newyddion o Eglwysi Bethel, Bethania, Seion, Cymry Birkenhead, Cymry Lerpwl.
Blwyddyn fythgofiadwy yn Nhalaith Chubut.
Cyflwyno Panel Seiat Holi yr Ŵyl.
Ein Gweinidogaeth fel Eglwysi

Golygyddol

# *Y Byd Mawr a'r Byd Bach –*

## *gan D. Ben Rees*

**Ein Planed**

Dociwmentari hynod o ddiddorol a ddarlledwyd ar Sianel 4 rai blynyddoedd bellach oedd *Life after People*. Y syniad y tu ôl i'r rhaglen oedd beth a ddigwyddai i'n planed sydd oddeutu 4.6 biliwn blwydd oed pe peidiai bodau dynol a byw ar y ddaear. Rhaglen awr a hanner ydoedd a chefais fy nghyfareddu gan y posibilrwydd y byddai'r blaned o fewn deng mil o flynyddoedd wedi goresgyn pob ymdrech o'n heiddo a natur wedi ennill y dydd. Byddai môr a'r moroedd ar ei ennill a byddai rhai anifeiliaid yn tra lywodraethu. Yr anifail anwes mwyaf gorchestol o'r cyfan i gyd fyddai'r gath. Maentumiwyd y gallai'r gath erbyn hynny hedfan gan llath a mwy a'r creadur fyddai'n methu dygymod yn dda â byd heb bobl fyddai'r llygod. Ni sydd yn ei gwarchod hwy. Rhaglen i wneud i rywun feddwl ydoedd.

Cawsom erbyn hyn ddigon i ddweud wrthym sut y datblygodd ein planed, a sut yr esblygodd bacteria ac algae gwyrddlas gyda'r gallu i ddefnyddio ffotonau (egni yw hwnnw o brosesau thermoniwclear yr haul), i hollti dŵr gan ryddhau ocsigen i'r awyr. Galwn yr ocsigen yn $O_2$ a hwnnw a lanwodd yr atmosffêr ac mewn ciliau yn defnyddio'r ynni a'r hydrogen i fachu carbon deuocsid ($CO_2$) o'r atmosffêr a'i droi yn siwgrau syml $CH_2O)_N$. Digwyddodd hyn tua 3.6 biliwn o flynyddoedd yn ôl a pharatoi'r blaned ar gyfer byd ac amgylchedd gwahanol. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Tua 540 o filiynau o flynyddoedd yn ôl cafodd ehangu mawr ac o hyn y daeth y bywyd amrywiol, cyfoethog a fwynheir gennym ni yn y blaned. Ond ni fu'r stori yn rhydd o drychinebau gan fod hyn wedi digwydd o un cyfnod i'r llall ac yn difa dros wyth cant o'r holl rywogaethau, ac y mae pawb yn gwybod am ddifodiant y dinosoriaid. Ein bod ni yma o hyd sy'n fawr ryfeddod ond ni allwn warantu hynny os na newidir ein ffordd o fyw ac o barchu'r greadigaeth. Caiff hi'r gair olaf bob tro a'r tro nesa ni fydd dim o'n cynnyrch yn goroesi..

**Gwyrth ein Papurau Bro**

**Y mae'r Angor yn dechrau ar flwyddyn arall - dechrau ar flwyddyn 37.** Dyma'r unig air sef gwyrth i'w ddefnyddio am *Yr Angor* (papur bro Glannau Mersi a Manceinion) ac yn wir bob papur bro arall, gan y byddaf wrth fy modd yn darllen pob un y medraf gael fy llaw arnynt. Daw i'r cartref bob mis *Y Barcud*, papur bro Tregaron a'r Cylch. Daeth y rhifyn cyntaf allan Ebrill 1976 a deil yn gadarn. Bob tro yr af i Geredigion prynaf yn y Llyfrgell Genedlaethol *Yr Angor* sef papur bro Aberystwyth, Comins Coch, Penparcau, Waunfawr a Llanbadarn Fawr, sydd ryw ddwy flynedd yn hynach na'n papur bro ni, *Yr Angor* – Aberystwyth allan Hydref 1977 a'n papur bro ni Mehefin 1979. Byddaf yn gweld yn gyson *Y Bedol*, papur bro, Rhuthun a'r Cylch, un arall hirhoedlog. Gwelwyd y rhifyn cyntaf yn Rhagfyr 1977.

Blasus hefyd yw *Y Clawdd*, papur bro Wrecsam a'r Cylch, a welodd olau dydd cyntaf ym Mawrth 1987, wyth mlynedd ar hugain mlynedd yn ôl a bu Alun J Emanuel yn rhan o'r Golygyddol byth oddi ar hynny. Record ardderchog! Un o'r papurau bro hynaf yw *Y Dinesydd*. Daeth y rhifyn cyntaf o'r wasg yn Ebrill 1973 ar gyfer y Brifddinas, Caerdydd. Ni chodir tâl amdano. Caiff ddigon o nawdd heb godi pris! Braf o beth yw hynny!

Darllenaf hefyd *Y Ddolen,* papur bro cymoedd Ystwyth i Wyre yng ngogledd Ceredigion, papur bro a gafodd ei gyhoeddi yn gyson ers Medi 1978. Gwelaf yn achlysurol *Goriad*, papur bro Bangor a'r Felinheli, ac ymddangosodd yn blygeiniol ers Hydref 1980. Ceir sglein arbennig ar *Y Lloffwr*, papur bro cylch Dinefwr, ac mae'n ddrutach na'r mwyafrif o'r papurau bro.

Ni welais erioed papurau bro Sir Drefaldwyn, sef *Plu'r Gweunydd*, am ardaloedd Llangadfan, Dolanog, Meifod a'r Trallwng, na *Seren Hafren*, papur bro Dyffryn Hafren na chwaith *Yr Ysgub,* papur ardal Llanrhaeadr ym Mochnant. Eisioes gwnaed mwy nag un cyfres ar y papurau bro hyn, a dylid cael cyfres hefyd ar pam y diflannodd o leiaf ddwsin ohonynt fel *Papur Bro Ifor* (Ardal Cwm Rhymni), *yr Ancr* (papur bro Llanddewi Brefi), *Y Post* (papur Cymraeg Bro Morgannwg), *Y Sosban* (papur Cymraeg Llanelli a'r cylch) ac yn arbennig, methiant tref Caernarfon gyda'i phapur bro, fel *Broc Môr*, (1982-83), *Eco Bach* (1980-82) ac *Y Gaer* (1987-88). Byddai'n agoriad llygaid.

**Bardd y Gymuned Cymraeg yn Lerpwl.**

Pwy a glywodd am Gwilym Mathafarn? Cwestiwn da. Yn y golygyddol hwn cawsom ddechrau gyda'r blaned a symud ymlaen i wyrth y Gymru Cymraeg gyfoes ar ôl yr Eisteddfod Genedlaethol a S4C sef y papur bro misol. Ond yn awr fy nhasg i yw cyflwyno William Williams (1846-1918) o Lerpwl a adnabyddid yn y cylchoedd llenyddol Cymraeg oes Fictoria fel Gwilym Mathafarn. Un o Llanfair-Matharfarn-Eithaf ym Môn ydoedd yn wreiddiol, yn fab i David a Sidney Williams, Pont Saer. Daeth i Lerpwl o Fôn yn y flwyddyn 1877 i weithio i'r adeiladydd adnabyddus, David Hughes, blaenor yng nghapel Anfield a hefyd yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghemaes, Môn. Gŵr a berthynai i Fôn a Lerpwl!

Buan y gwnaeth Gwilym Mathafarn ei farc o dan oruchwyliaeth David Hughes, a chyn fawr o dro mentrodd ar ei liwt ei hun yn ardal Kirkdale lle'r oedd llu o deuluoedd Cymraeg yn cartrefu. Ef a'i weithwyr a adeiladodd strydoedd Oswell, Leven, Chirkdale a Roxburgh yn nhrefedigaeth Walton lle bu'r bardd Goronwy Owen, o'r un fro ag ef, yn giwrad Eglwys y Plwyf. Adeiladodd Gwilym Mathafarn yn oes Iorwerth yn ardaloedd Garston, Mossley Hill a Wavertree.

Roedd Gwilym Mathafarn yn ymddifyrru yn niwylliant y Cymry. Lluniodd ugeiniau o englynion, ac enillodd Gadeiriau yn eisteddfodau'r ddinas yn arbennig Eisteddfod y Temlwyr Da am awdl i'r Diwygiwr o'r Almaen, Martin Luther, ac ef oedd y buddugol yn Eisteddfod fawr 1893 a gynhaliwyd yn Neuadd y Rotunda ar y testun o Efengyl Luc, 'A phan welodd Efe y ddinas, Efe a wylodd drosti.' Hoffaf yn fawr yr englyn canlynol o'i awdl:

Yn ei dristwch cyfiawn drosti – wylodd
Mewn rhagolwg arni;
Wylodd Ef pan welodd hi
A 'storm diystyr amdani.

Ymrodd i feistroli hanfodion y Gymraeg ac yn arbennig darllenai yn ofalus erthyglau John Morris-Jones ar yr angen i loywi'r iaith. Roedd yn enghraifft dda o werinwr diwylliedig a bardd y gymuned Gymraeg.

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION



*Y Gweinidog a Miss Hilda Lloyd, Rainhill*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

'Myfyrdod ar y Pasg' oedd teitl noson ardderchog a gawsom yn Y Gymdeithas Lenyddol ar nos Fawrth, Mawrth 31. Bydd edrych ymlaen am y noson hon sydd dan ofal Dr. Pat Williams. Llywydd y cyfarfod oedd Dr. D. Ben Rees sydd wedi cael cyhoeddi cyfrol newydd, *Defosiwn Gŵyl y Pasg*. Ar ddechrau'r cyfarfod darllenodd Dr. Rees fyfyrdod o'r gyfrol hon. Gwelsom ddarluniau hyfryd o hanes y Pasg gan Dr. Pat Williams a chymerwyd rhan hefyd gan Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Dechreuwyd trwy ddangos darlun gan William Blake a ysgrifennodd 'Jerusalem'. Llun ydoedd o'r 'Ymdaith Fuddugoliaethus i Jerusalem'.Y peth nesaf a wnaeth Iesu Grist oedd puro'r deml ac roedd llun dan y teitl 'Puro'r Deml' gan Marcello Venusti. Mae i'w weld yn Oriel Genedlaethol Llundain.

Darllenwyd darn o farddoniaeth gan Mrs Nan Hughes Parry oedd yn dangos sut le oedd yn Jerusalem ac yn y Deml wythnos y Pasg. Roedd Rubens yn ŵr diwylliedig iawn a gwelsom ei lun 'Gwledd yn Nhŷ Seimon' oedd yn dangos y wraig yn eneinio traed yr Iesu. Er nad oes gwybodaeth bendant i ddweud wrthym pwy yn hollol oedd y wraig hon, cred llawer mai Mair Magdalen ydoedd. Roedd llun ohoni gan Jan van Scorel o'r Iseldiroedd. Siaradai ef nifer o ieithoedd. Gwelsom lun o'r 'Swper Olaf' a'r 'Dioddefaint yn yr Ardd' mewn sgwâr bychan yng ngwaelod y llun. Roedd hwn gan arlunydd anhysbys. Roedd llun o Grist yn ymadael â'i ddisgyblion gan Duccio di Buoninsegne. Roedd hwn yn anferth gyda lliwiau llachar. Edrychir ar yr arlunydd hwn fel Tad Arlunio. Gwelir y llun yn Amgueddfa'r Gadeirlan yn Sienna. Mae llun ar y cefn hefyd, cystal a'r llall. Roedd 'Crist yng Ngardd Gethsemane' gan Marcello Venusti a weithiodd ar y cyd gyda Michaelangelo.

Canodd Cantorion Bethel Garol y Swper, sef un o garolau'r Plygain. Mewn llun o nenfwd Capel Sistine, Rhufain, gwelsom 'Gwymp Adda' gan Michaelangelo. Dangosai goeden Gwybodaeth Da a Drwg. Gwelir Adda'n tynnu ffrwyth o'r goeden, er mai Efa fydd yn cael y bai i gyd! Darllenodd Nan ddarn o farddoniaeth gan Gwenallt am hyn. Roedd llun gan M. Massacci o Adda ac Efa yn cael eu gyrru allan o'r ardd.

Clywsom gan Dr. Pat Williams am y chwedl sydd yn dangos pa beth a ddigwyddodd i Adda wedi gadael Gardd Eden. Gyrrodd ei fab Seth i Eden i ofyn am olew trugaredd. Metaffor am Iesu Grist oedd yr olew. Rhoddodd angel dri hedyn i Seth. Yn ôl y chwedl roedd Adda'n gant dau ddeg ac un oed. Chwerthodd pan welodd yr hadau. Rhoddodd Seth y tri hedyn dan dafod Adda! Bu Adda farw ymhen ychydig a thyfodd coeden o'r hadau allan ohono! O'r goeden hon yn cymerwyd coed i wneud croes Iesu Grist. Dim ond chwedl, ond rhywbeth sy'n aros yn y cof.

Gwelsom lun symbolaidd o'r Croeshoeliad gan Giovanni di Niccolo Mansueti. Gwelir ynddo Mair ac Ioan, Mair Magdalen, Pedr a Nicodemus o gwmpas y Groes.

Canwyd dwy gân arall gan Gantorion Bethel sef emyn Elfed "Pwy sy'n dod i Salem dref…" ar y dôn Marian gan Caradog Roberts a'r gytgan o Feseia Handel, 'Fel Trwy Ddyn Mae Tranc.'

Ar ddiwedd y cyfarfod roedd paned a lluniaeth i bawb, wedi ei baratoi gan Mrs Gwenfyl Bain, Mrs Lilian Coulthard a Miss Carys Jones. Roedd y bwrdd yn



*o'r chwith: Wena Evans, Siân Hartley, Sara Williams, Lisa Hartley a'i chwaer L. Clowther*



*Cantorion Bethel*

werth i'w weld wedi ei addurno'n hyfryd ar gyfer y Pasg gyda wyau, cywion bach melyn a cherdyn yn dymuno Pasg Hapus i bawb. Mae'n diolch yn fawr i'r Ysgrifenyddion Lluniaeth am eu gwaith drwy'r tymor, i Mr. R. Ifor Griffith a'r Côr ac yn ddiffuant iawn i Dr. Pat Williams am ei holl waith yn trefnu'r noson arbennig hon.

Cawsom Oedfa hyfryd ar fore Sul y Pasg dan ofal Dr. D. Ben Rees. Roedd cynulleidfa dda'n bresennol, gyda rhai o blant yr Eglwys gartref dros y gwyliau.

Ar nos Lun Ebrill 27 dan nawdd Cangen Lerpwl o Alumini Prifysgol Cymru cafwyd darlith yn Saesneg gan yr Athro Mari Lloyd Williams o Brifysgol Lerpwl ar 'Ageing and the Welfare State'. Daeth cynulleidfa i lenwi'r Ganolfan, ac roedd yn bleser cael croesawu cyfeillion Saesneg. Llywyddwyd y noson gan Dr. Pat Williams a gyflwynodd yr Athro Mari Lloyd Williams a dweud wrthym am ei holl lwyddiant ym myd addysg ac ysgrifennu. Llongyfarchwyd hi'n gynnes iawn hefyd ar enedigaeth ei merch fach, Miriam, mis Rhagfyr 2014.

Mae'n bleser mawr bob amser cael gwrando ar Yr Athro Mari Lloyd Williams, mae mor annwyl ac mor fywiog a gweithgar. Deliodd gyda phwnc a fuasai wedi medru bod yn drwm a thrist gyda chadernid a hiwmor, a'i gadw'n ysgafn. Dechreuodd trwy adrodd adnod o Salm 90 sef "Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain trwy gryfder, ond y mae eu hyd yn faich a blinder …" Arweiniodd hyn at henoed a'i broblemau. Fel y dywed hen ddywediad Cymraeg, "Henaint ni ddaw ei hunan". Fel mae pobl yn heneiddio, gallent fod yn dioddef gyda sawl salwch fel cancr, clefyd siwgr, cryd y cymalau a llawer mwy. Ond y broblem fwyaf un yw unigrwydd. Maent yn colli cysylltiad â theulu a chyfeillion. Dywedodd yr Athro Mari Lloyd Williams mai ni, pob un ohonom, ddylai fod yn gyfrifol am edrych ar ôl henoed y wlad gan nad yw'r arian angenrheidiol gan y Wladwriaeth Lês yn awr i wneud popeth a ddylai gael ei wneud i gynorthwyo'r henoed. Bu'r Athro Mari Lloyd Williams yn gweithio am beth amser yng Nghaerlŷr ac roedd yn dweud fod y bobl Asiaidd yno yn hynod o ofalus o'u henoed. Soniodd wrthym am hanes Mick oedd mewn Ysbyty Seiciatrig. Pan gaewyd yr ysbyty, dywedasant wrth y cleifion am fynd gartref. Roedd Mick yn ddigartref. Symudwyd ef i fflat fechan, ond datblygodd gancr ac aed ag ef i Hosbis Marie Curie yn Lerpwl. Cafodd iachâd, ond dalai i fynd i'r Hosbis yn aml iawn oherwydd dyna oedd ei unig gysylltiad â phobl eraill. Bu'r Hosbis yn garedig wrtho a gwneud yn siwr y byddai'n cael cinio bob tro yr ai i mewn.



*Rhan o'r gynulleidfa gref a gaed i wrando ar yr Athro Mari Lloyd Williams*



*Derek, Miriam a'r fam,*
*Mari Lloyd Williams*

Daeth yr Athro Mari Lloyd Williams i'w adnabod ac roedd yn amlwg ei fod yn meddwl y byd ohoni. Daeth y newydd un dydd fod Mick wedi marw o lid yr ysgyfaint.

Clywsom am Anne oedd wedi bod yn nyrs ond bellach wedi colli ei phriod, wedi syrthio i lawr y grisiau a thorri ei choes ac yn alcoholig. Roedd yn byw mewn aflendid gyda chriw o gathod. Arhosodd y darlithydd am beth amser gyda hi ar Noswyl Nadolig, ond clywed am ei marwolaeth ddau ddiwrnod yn ddiweddarach.

Bu'r Athro Mari Lloyd Williams yn gweithio yn yr Iwerddon a chlywsom am Sister Mary Catherine oedd yn Our Lady's Hospice. Roedd yn 93 mlwydd oed a chyda helynt ar y galon a dryswch meddwl. Er hyn, gweithiai ar y wardiau yn ystod y dydd ac yn sicr gwyddai sut i siarad a delio hefo'r cleifion. Gwelsom lun o Mary Owen, Rhuthun yn arlunio pan yn gant ac un, un o ddisgynyddion teulu a fu ar y Mimosa, a hefyd grŵp arbennig o ddarluniau a brodwaith hynod o dlws a wnaethpwyd gan yr henoed.

Angen mwyaf yr henoed yw cael gweld a siarad gyda phobl eraill er mwyn teimlo fod ganddynt gyfeillion a chefnogwyr. Ein problem ni i gyd yw hyn. Y peth pwysicaf y gallwn ei roddi i'r henoed a'r unig yw ein hamser.

Diolchwyd i'r Athro Mari Lloyd Williams gan Dr. Pat Williams a Dr. D. Ben Rees cyn i bawb gael paned. Gwerthfarwogwyd y noson gan bawb.

Mae Miss Ann Roberts, Score Lane, mewn dipyn o boen ar hyn o bryd, ond mae'n dal mewn hwyliau da ac yn gobeithio cael triniaeth yn fuan. Anfonwn ein cofion ati ac at bawb sydd yn gaethiwus.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Bylchwyd Eglwys y Crist gan farwolaeth y brawd John Bowen, Crank, aelod yno o'i blentyndod, ac o hil Gymreig. Yr oedd yn bennaf ffrindiau gyda'n Gweinidog a bu hynny o help mawr pan ddaeth hi yn fater o drefnu cartref newydd i ni o gapel Bethania. Hwylusodd y ffordd yn fawr. Meddai ar lais canu da a bu'n amlwg iawn ar y Glannau. Cydymdeimlir â'i briod Audrey a'r teulu.

Daliwn i gofio yr anwyliaid o'n plith sydd ddim yn mwynhau yr iechyd gorau. Cofiwn yn ein gweddïau yn benodol am Mrs Menna Edwards a Miss Dorothy Williams, y ddwy yn byw yn Blundellsands, Miss Kitty Roberts, Anfield, a Mrs Gwyndaf Williams, Ainsdale a Mrs Marian Lyons. Bu'r Gwasanaeth Undebol (Bethania a Bethel) ar fore Sul, 12 Ebrill o dan arweiniad ein Gweinidog yn fendithiol a braf oedd cael agoshau at Fwrdd yr Arglwydd gyda nifer o addolwyr ynghyd. Bendigwn y cyfle a ddaeth i ni fel diadell.

Rhifyn Mehefin_Tud 8 Mehefin.qxd 08/05/2015 13:57 Page 5

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Daeth Parti Gwynfor o Ruthun a'r cylch i'n diddanu ar Ebrill 13 gyda noson o ganu ardderchog, straeon doniol ac awyrgylch tebyg i noson lawen. Mae'r tri gŵr yn aelodau o gorau poblogaidd Gogledd Cymru; John yn unawdydd gyda côr Godre'r Aran, Arwel gyda côr Penrhyn, a Gwynfor gyda'r Porthmyn. Arwel oedd y cyfeilydd ar hyd y noson, Gwynfor yr arweinydd a John yr unawdydd. Fel parti maent wedi teithio'r gogledd gyda'i cyflwyniad o gerddoriaeth a llenyddiaeth, er mwyn codi arian i Ysbyty Broadgreen, neu yn hytrach, Tŷ Robert Owen yn yr ysbyty, ar gyfer teuluoedd yn ymweld a'r cleifion.

Cafodd John a Gwynfor, lawdriniaeth calon arbennig yn Broadgreen, a mawr yw eu dyled, a'u canmoliaeth o'r gwaith a wnaed yno.

Gan John, sy'n fuddugwr cenedlaethol clywsom ddetholiad o ffefrynau traddodiadol Gymraeg, a chaneuon sioeau gerdd poblogaidd. Roedd ei lais cryf, godidog yn llenwi'r ystafell er mwynhad pob un ohonom. Gwynfor oedd yn tywys y cyfarfod gyda'i straeon a doniol ac fe lwyddodd Arwel i droi'r hen biano yn offeryn hudolus.

Yn ystod y noson, cyfeiriodd y llywydd at ewythr Gwynfor, ein cyfaill Mr Bob Jones sy'n dal yn wael wedi triniaeth mewn ysbyty ac arhosiad yn yr Hospis. Mae colled mawr ar ôl Bob, ac anfonwn ein cofion a'n gweddiau ato ef, Glenys a'r teulu yn eu gofid amdano.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Iola Edwards, am noson hwyliog a chyfeillgar.

Tristwch oedd cyfeirio yn ein cyfarfod blynyddol ar 27 Ebrill, at farwolaeth ein cyn-lywydd a'n cyfaill annwyl, Mr Bob Jones. Bu Bob yn aelod ffyddlon a gweithgar ers blynyddoedd gyda'i groeso twymgalon a'i wên hyfryd i'n cyfarch ym mhob cyfarfod. Nid oedd dim yn ormod a drafferth i Bob, yn barod ei gymwynas bob amser. Er ei gystudd hir a phoenus 'roedd yn hollol ddi-gwyn ac amyneddgar. Gollasom gyfaill brwd, siriol a gweithgar a bydd ein Cymdeithas yn teimlo'i absenoldeb am amser maith.




*Mrs Eirwen Sargent yn cyflwyno'r llywyddiaeth i'r Barch Glenys Wilkinson*


Daeth nifer da o'n aelodau i'r cyfarfod blynyddol a diolchodd y llywydd iddynt am eu cefnogaeth a'i ffyddlondeb ar hyd tymor llwyddianus a hapus. Wrth drosglwyddo'r gadwyn a'r darian i'r llywydd etholedig, y Barch Glenys Wilkinson, cyfeiriodd Mrs Eirwen Sargent at gynhesrwydd a chyfeillgarwch yr aelodau – peth mae amryw o'n gwesteion yn canmol – ac at y nifer fawr o ddoniau a thalentau sydd ar gael yma. Wedi bron i ddeng mlynedd yn y swydd, derbyniwyd ymddeoliad ein hysgrif-ennydd, Mrs Eira Hughes oherwydd anhawsterau iechyd. Diolchodd Eirwen a Glenys iddi am ei gwaith a'i hymroddiad i' r gymdeithas, yn arbennig at ei cyfathrebu â'n gwesteion a'i gallu yn paratoi'r rhaglen yn gyflawn ac yn gyflym. Etholwyd Mrs Iola Edwards yn Ysgrifennydd yn ei lle, Mr Merfyn Williams yn is-Lywydd, Mr Arwel Evans a Mrs Anne Montgomery yn aelodau'r pwyllgor ac arhosodd y swyddogion eraill yn eu swyddi presennol.



# Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Ar nos Fercher 15fed Ebrill 2015 o dan Lywyddiaeth Mr Elwyn Evans, Manceinion, ordeinwyd pump o flaenoriaid newydd yng Nghapel y Groes, Wrecsam. Teimlwyd siom am na allai Mrs Morfydd Williams, Seion Penbedw fod yn bresennol oherwydd anaf wedi damwain. Bu'r Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn ymddiddan a'r pump oedd yn bresennol ac ordeinio hwy mewn cyfarfod arbennig yn yr hwyr. Ordeinwyd y blaenoriaid gan Mr Huw Tudor, cyn Lywydd Cymdeithasfa'r Gogledd ac ef a roddodd y Cyngor iddynt gan orffen drwy dynnu sylw at Lythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid (15:58) "Felly, fy nghyfeillion annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer".


Derbyniasant rodd o ddau lyfr gan y Parch. Ddr. D Ben Rees sef 'Y Gwron o Genefa' a 'Defosiwn Gŵyl y Pasg' i gofio am y noson arbennig .



*Mr. Huw Tudor a Elwyn Evans yn yr Ordeinio*



*(chwith i'r dde) Huw Tudor, Merfyn Williams ac Eleanor Thomas (Caer), Eirwen Jones (Nercwys), Wyn Jones (Caer), Mair Rees Jones (Penbedw) ac Elwyn Evans*



*Mrs Mair Rees Jones a Miss Iris Hughes-Jones*

## CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas yn niwedd mis Ebrill i drefnu raglen yr haf a dechrau trefnu rhaglen am y tymor nesaf.

Dyma raglen yr haf

- Mehefin 11eg – **Tê prynhawn** ym 'Maeshir' , Drennan Road am 3 o'r gloch.
- Mehefin 24ain – **Trip i'r Bala.** Ymweld â Chanolfan 'Byd Mari Jones' yn Eglwys Llanycil. Wedyn i'r hen gapel Llanuwchllyn gan orffen yn 'Nhafarn yr Eryrod', Llanuwchllyn am bryd o fwyd. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni ar y daith yma.
- Gorffennaf 14eg – **Bwffe'r Haf,** Clwb Criced Lerpwl, Aigburth am 7 – 7.30 o'r gloch.

Manylion pellach i'w gael oddi wrth Mrs. Norma Owen

## CORNEL Y TRYSORYDD

### Mehefin 2015

| | |
|---|---|
| Eglwys Dewi Sant, Lerpwl | £250.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall | £12.00 |
| Cymdeithas Gymraeg, Penbedw | £100.00 |
| Mrs Mair Roberts, Rhuthun | £30.00 |
| Pwyllgor Etifeddiaeth Lerpwl | £30.00 |
| Mr a Mrs Roderick Owen, Allerton | £25.00 |
| Mr a Mrs Selwyn Jones, Llanfairpwll | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£472.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# BLWYDDYN FYTHGOFIADWY YN GWEINIDOGAETHU YN NHALAITH CHUBUT, PATAGONIA

***Treuliodd y Parchedig Ganon Tegid Roberts a'i wraig Nant, flwyddyn yn Nyffryn Camwy, Talaith Chubut, ym Mhatagonia. Bu Tegid yn gweinidogaethu yng Nghapeli Cymraeg Dyffryn Camwy a'r un eglwys Anglicanaidd, sy'n rhan o Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa, tra bu Nant yn gweithio fel athrawes Gymraeg yn Ysgol yr Hendre, Trelew, ac Ysgol Feithrin y Gaiman a'r Dosbarthiadau Cymraeg yno, ac yng Ngholeg Camwy. Dyma rai sylwadau am y flwyddyn anturus honno yn eu hanes.***

Yn ei gyfrol *'Hanes y Wladfa Gymreig yn Patagonia',* a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1894, fe ddywed y diweddar Barchedig Abraham Matthews, wrth groniclo rhai o brif nodweddion y Wladfa yn ystod y tair degawd gyntaf o'i hanes, bod *'corff y fintai gyntaf yn proffesu crefydd, a'r oll ohoni wedi arfer a mynychu lleoedd o addoliad tra yng Nghymru'* (tud. 44). Ac fel pe byddai am bwysleisio'r wedd bwysig honno yn hanes yr ymfudiaeth, ychwanegodd bod tri o bregethwyr, yn cynnwys ef ei hunan, ymysg yr ymfudwyr cyntaf a hwyliodd ymaith o Lerpwl am Batagonia ar fwrdd y 'Mimosa' ddiwedd mis Mai, 1865.

Ychydig dros ganrif yn ddiweddarach, roedd Dr Robert Owen Jones, mewn darlith yn dwyn y teitl *'Yr Efengyl yn y Wladfa',* a gyhoeddwyd mewn llyfryn ganddo yn 1987, yn ysgrifennu mai un o'r ffactorau a fu'n gyfrifol am warchod a chynnal y Wladfa oedd y wedd grefyddol. Fel enghraifft i bwysleisio'r ffaith honno a'r hyn yr oedd Abraham Matthews yn ei nodi, fe ddywed y cynhelid gwasanaeth o gydaddoli'n feunyddiol ar fwrdd y '*Mimosa*', trwy gydol y fordaith o Lerpwl i Batagonia, ac ar y Suliau fe gynhelid dau wasanaeth ac Ysgol Sul. Dyma'r ffactor, yn ôl Robert Owen Jones, oedd yn rhoi'r teimlad o berthyn i'r ymfudwyr, a chryfder iddynt o fod yn rhan o gymdeithas foesol. Ychwanegodd mai crefydd yr ymfudwyr a gydiai bobl gyda'i gilydd, ac a ddaeth dros amser, yn nodwedd hollbwysig wrth i'r gwladychiad esblygu i'r hyn ydyw erbyn heddiw.

Gallaf finnau dystio, wedi i mi dreulio blwyddyn yn gweinidogaethu ymysg pobl y Wladfa yn yr eglwysi a gododd yr ymfudwyr yn Nyffryn Camwy, ac yng Nghwm Hyfryd wedyn, bod y dylanwad crefyddol hwnnw yn parhau'n nodwedd bwysig ymysg disgynyddion y Gwladfawyr cyntaf hynny. Mae'r gwaith o ledaenu Efengyl Iesu Grist yn parhau i ddigwydd yn eu mysg hyd heddiw trwy amrywiaeth o arddulliau cyfoes. Ar wahân i ambell weinidog o Gymru'n mynd yno am gyfnodau, ni fu gweinidog Cymraeg sefydlog yn gwasanaethu'n hir dymor yma ers blynyddoedd lawer. Yn hytrach, caiff y gwaith hwnnw ei gyflawni erbyn hyn dan arweiniad lleygwyr ymroddedig.

Mis Medi oedd hi, ac roedd hi'n ddyddiau cynnar yn nhymor y gwanwyn pan gyrhaeddodd Nant a minnau i'r Dyffryn, ac fel yr ymfudwyr cyntaf, doedd gennym ninnau fawr o syniad beth fyddai yn ein haros wrth i ni roi cychwyn bywiog i'n gwaith yno. Ond buan y gwelsom fod y croeso a dderbyniasom gan bobl y Wladfa yn ystod wythnosau cyntaf ein harhosiad, ac ar hyd y misoedd dilynol hefyd, yn anhygoel. Wnawn ni byth anghofio'r croeso cynnes a'r cyfeillgarwch triw hwnnw sy'n nodweddiadol iawn o bobl y Wladfa. Cerddais lawer ar hyd strydoedd y Gaiman a Threlew, i gartrefi aelodau'r capeli oedd yn byw yno, a chael paned a sgwrs - yn y Gymraeg wrth gwrs! Roedd yn rhyfeddol eu clywed yn siarad ein hiaith nefolaidd ni mor rhugl, o wybod nad oedd rhai ohonyn nhw erioed wedi bod yn agos i Gymru.



*Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel y Gaiman - Gorffennaf 2010*

Gyda'r tymheredd yn codi'n uchel yn ystod mis Rhagfyr, buan iawn y daethom i ddeall beth oedd gwerth yr arfer o gael 'siesta' ar ddyddiau poeth o'r fath, ac yn hwyr y pnawn y byddai'r gwaith bugeiliol yn cael ei wneud. Tymor y gwyliau yw dechrau'r flwyddyn i bobl Patagonia a chawsom ninnau ychydig o ddyddiau'n rhydd i groesawu rhai o'n teulu i'r Wladfa, a rhoi'r profiad iddyn nhw o'r asado (barbeciw mawr) a'r bwyta yn yr awyr agored sy'n nodwedd mor amlwg yn yr Ariannin. Maen nhw'n bobl gymdeithasol iawn ac yn hoff o gyfle i ddod at ei gilydd ar unrhyw achlysur.

Buan iawn, fodd bynnag, y daeth yn amser i ni ein dau ail-afael yn ein gwahanol orchwylion gyda'r capeli a'r ysgolion. Ar ddydd Gŵyl Dewi, roedd cyfle i adrodd stori'r hen sant wrth bobl y Dyffryn. Y diwrnod hwnnw hefyd oedd diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol newydd, yn dilyn gwyliau'r haf, a dyna bawb yn ôl wrth eu gwaith a minnau'n gallu ail-gydio yn y patrwm o ymweld â'r ffyddloniaid a chynnal cyrddau ar y Sul. Cyrddau ysbeidiol fyddai yn rhai o'r capeli lleiaf, ond roedd oedfa Gymraeg yr hwyr bob Sul yn y Gaiman, ac oedfa Gymraeg yng Nghapel Tabernacl, Trelew ar fore Sul unwaith y mis. Ond roedd Ysgol Sul Gymraeg i'r oedolion yn Nhrelew bob bore Sul, ac un o'r lluniau yr wyf wedi eu cynnwys gyda'r erthygl hon yw llun y dosbarth Ysgol Sul hwnnw yng Nghapel Tabernacl. Bu'n bleser mawr cael astudio Efengyl Ioan yng nghwmni'r aelodau, ac roedd eu cyfraniad yn hynod o ddysgedig. Llun arall yw hwnnw sy'n dangos un o'r Cymanfaoedd Canu poblogaidd, a gynhelir yn fisol dan nawdd Cymdeithas Dewi Sant, Trelew, ac sy'n digwydd ar ddydd Sadwrn unwaith y mis ym mhob un o gapeli'r dyffryn yn eu tro.

Er mai ar ddyddiad penodol ym Mawrth neu Ebrill y digwydd Gŵyl y Pasg drwy'r byd, bryd hynny mae'n dymor yr hydref yng ngwledydd hemisffer y De. Ar y 4ydd o Ebrill yr oedd Sul y Pasg yn 2010, ond wythnos yn ddiweddarach roeddem yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch am y cynhaeaf yng Nghapel Bethel y Gaiman! Roedd angen Pregeth Basg amgen arnaf o gofio

ein bod yn dathlu'r Atgyfodiad yn nhymor yr hydref ac nid yn y gwanwyn fel yr arferwn ei wneud yng Nghymru. Fyddai sôn am fywyd newydd y coed yn blaguro a chywion yn deor ddim yn dymhorol o gwbl!

Fe ddywedwyd wrthym gan un o'r Gaiman, mai'r hydref fyddai'r tymor y byddem yn ei fwynhau orau, pe byddai ond am weld lliwiau'r dail ar y coed, yr awyr las ddigwmwl, a'r haul braf na fyddai'n rhy boeth. Gwir oedd geiriau'r ffrind hwnnw.

Tra buom yn byw yn y Gaiman, cawsom ymuno â'r Côr Cymysg yno a chystadlu mewn amryw o'r eisteddfodau sy'n cael eu cynnal yn flynyddol mewn gwahanol fannau. Dyna enghraifft arall o'r modd y cawsom ein croesawu i fod yn rhan o fywyd cymdeithasol y Dyffryn. Bydd atgof am seiniau harmonïau hyfryd cantorion y Gaiman yn swynol yn ein clustiau am flynyddoedd lawer!

Yn raddol, er bod yr haul yn dal i wenu a'r awyr yn dal i fod yn las, las, daeth y gaeaf a'r dyddiau'n byrhau ym mis Gorffennaf. Yng nghanol y gaeaf, ar 28 Gorffennaf, ganrif a hanner yn ôl y dechreuodd hanes y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Cawsom ninnau ymuno yn nathliad Gŵyl y Glaniad 2010, trwy fod yn rhan o seremoni arbennig i osod carreg sylfaen ar ddarn o dir ger Capel Moriah, sydd ar gyrion dinas Trelew, lle y byddai Ysgol yr Hendre newydd yn cael ei hadeiladu. Yna, ymlaen i Gapel Tabernacl, lle cefais y fraint o draddodi anerchiad pwrpasol i gyd-fynd â gweddill digwyddiadau Gŵyl y Glaniad. Ac i goroni'r diwrnod cofiadwy hwnnw roedd te arbennig yn cael ei arlwyo yn sawl un o'r capeli. Bu raid i ni ddewis un, ac ymuno â chyfeillion Capel Bethlehem,



*Dosbarth Cymraeg yr Ysgol Sul yng Nghapel Tabernacl, Trelew - Mai 2010*

Treorci wnaethom ni y tro hwnnw a mwynhau te ardderchog.

Er i mi obeithio, wrth ymadael, y deuai olynydd i mi o Gymru'n fuan, i helpu'r Undeb gario'r gwaith ymlaen yn yr Ysgol Sul, a chyda'r gwasanaethau o Sul i Sul yng nghapeli'r dyffryn trwy gyfrwng y Gymraeg, aeth pum mlynedd heibio bellach heb i unrhyw un ateb yr alwad a gwireddu'r deisyfiad hwnnw! Mae gweinidog Archentaidd yn gweinidogaethu yn y Dyffryn, ond yn anffodus nid yw'n gallu siarad Cymraeg. Yn naturiol felly, trwy'r iaith Sbaeneg y cyflawna ef waith yr Efengyl. O ganlyniad, ysywaeth, yn ysbeidiol yn unig y caiff yr eglwysi wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n rhywbeth y mae'r bobl yn ei werthfawrogi'n fawr iawn, yn enwedig y to hŷn.

Mae'r Wladfa'n parhau i ddatblygu. Mae'r capeli'n cael eu hatgyweirio gyda help rhywfaint o arian gan Dalaith Chubut. Bellach mae ganddyn nhw gyfleusterau sy'n addas i addolwyr yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r dyfodol yn argoeli'n dda a hynny, rwy'n credu, yn nwylo hyderus ac amryddawn rhai o blith y to ifanc, sydd wedi cydio o ddifrif yn eu hetifeddiaeth Gymreig, yn cynnwys y bywyd crefyddol. Gyda'r diddordeb cynyddol yn yr addysgu a dysgu'r iaith Gymraeg yn y dalaith, tybed mai o blith un o'r bobl ifanc hyn y daw'r gweinidog Cymraeg sefydlog nesaf i weinidogaethu yn y Wladfa. Efallai y bydd dathliadau 2015 yn symbyliad i un ohonyn nhw ymgymryd â'r barchus, arswydus swydd. Pob bendith i'r dathliad mawr eleni, a 'bydded i'r hen iaith barhau' ym Mhatagonia.

***Haelioni i'w Glodfori***

## APÊL MIMOSA MEHEFIN 2015

Y mae costau yr Ŵyl yn anhygoel a diolchwn am yr haelioni sydd yn cyfateb i'r angen. Y mae yr Ŵyl yn agosau a chyhoeddwyd ers Rhagfyr 2014/Ionawr 2015 pump rhestr yn *Yr Angor.* Ceir y rhestr hefyd yn y Llawlyfr (tudalennau 49-52), ond ni cheir y rhestr hon yn y cyhoeddiad hwnnw

**Y CHWECHED RESTR (i 4/5/2015)**

1. Eleri a Dr. Robin Gwyndaf, Llandaf, Caerdydd ...................... £50
2. Sandra F. Davies, Sgiwen, Castell Nedd, Gorllewin Morgannwg ...................... £20
3. Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen Clwyd: trwy law Richard Snelson, Cadeirydd) ...................... £30
4. Teulu Mrs Mary White Owen (o Gynwyd gynt: trwy law ei merch, Mrs Iola Jones, Rhuthun) ...................... £100
5. Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl (yn gyfrifol am gostau cyhoeddi Gwasanaeth Sul y Maer) ...................... £100
6. Cymdethas Cymru-Ariannin (trwy law Dr. Gareth M. Tilsley, Bangor, Trysorydd) ...................... £100
7. Y Parch W. J. Edwards a Mrs Gwenda Edwards, Bow Street, Ceredigion ...................... £20
8. Mrs Menna Edwards, Blundellsands, Lerpwl ...................... £25
9. Mrs Jennifer Cunningham, Blundellsands, Lerpwl ...................... £25
10. Arwel Williams, Roby, Lerpwl ...................... £20
11. Geraint Francis Roberts, a Anne Ll. Roberts, Rhuthun ...................... £25
12. Parch J. Gwyndaf Richards, a Mrs Eirlys Richards, Llwydiarth, Sir Drefaldwyn ...................... £30
13. Mrs Margaret Jones, Wallasey ...................... £25
14. Margaret a Robert Lloyd Williams, Plas Wern a'r Athro Mari Lloyd Williams a'r teulu, Waengoleugoed ger Llanelwy ...................... £50
15. Mrs Elan Jones, Mossley Hill, Lerpwl a'r teulu ...................... £200

Braint yw mynegi ein diolch diffuant am yr ymateb hwn eto.

*Llawer o ddiolch*

***D. Ben Rees (Cadeirydd a Threfnydd yr Apêl), Rachel Gooding (Trysorydd), Arthur Thomas (Ysgrifennydd) ac aelodau y Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi: Dr. Pat Williams, Mrs Nan Hughes Parry, Mrs Beryl Williams, Miss Elin Bryn Boyd a Brian Thomas.***

Os carai rhywun anfon rhodd gellir gwneud hynny i **Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society** i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW.

# CYFLWYNO PANEL SEIAT HOLI YR ŴYL

## Yn gyntaf: Marli Pugh

Mae Marli yn ferch i ddisgynyddion y gwladychwyr Cymraeg, a ymsefydlodd yn y Wladfa, ar lannau'r Camwy yn yr Ariannin. Derbyniodd gan ei rhieni ddiwylliant a thraddodiadau eu hen-deidiau, oherwydd nid oedd yn gallu gair o Sbaeneg pan aeth i'r ysgol gynradd, o ffarm yn ardal Bethesda, lle roedd ei rhieni wedi ymgartrefu. Yn fychan iawn, mynegodd diddordeb mewn cerddoriaeth. Yr oedd yn hoff o ganu unawdau a chanu corawl, mewn cyngherddau ac eisteddfodau yn y Wladfa.

Etifeddodd y traddodiad gan eu hen-deidiau sef teulu Pugh-Hutchings (hen daid a laniodd yn y *Vesta* yn y flwyddyn 1875) a Morgan-Jones, a'i thaid Iorwerth Morgan, arweinydd corau hefyd, o ardal Bryn Crwn, mab i Edward Morgan yn enedigol o Aberdâr yng Nghwm Cynon.

Yn y flwyddyn 1987, teithiodd Marli am y tro cyntaf i Gymru, fel aelod o'r côr "Camwy", dan arweiniad Edith Mac Donald i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ers 1989 mae'n arweinydd côr ysgol gerdd y Gaiman, gan ymweld eto â Chymru yn y flwyddyn 1997, efo côr cymysg, ac yn y flwyddyn 1994 efo côr meibion o'r un ysgol. Fe fu yn athrawes gerdd dros 29 o flynyddoedd, nes ei ymddeoliad. Mae yn parhau i arwain y côr hyd heddiw er mwyn cymryd rhan yn Eisteddfod y Wladfa, gan ennill aml i wobr yn ystod y blynyddoedd yn y cystadlaethau Cymraeg. Mae ei gŵr, Rodolfo, a'i merched yn cyfrannu yn y côr hefyd.

Mae yn aelod brysur o Orsedd y Wladfa. Ar ôl ymddeol yn y flwyddyn 2009, mae yn perthyn i Gymdeithas Dewi Sant, ac yn aelod o'r pwyllgor gwaith. Teimla hyn yn fraint. Mae yn hyfrydwch gyda Marli cael cyfle yng Ngŵyl Mimosa Lerpwl ar yr achlysur arbennig i goffau ymfudiad mintai o Gymry dewr i'r Wladfa yn 1865, i geisio sicrhau gwell dyfodol i'w teuloedd ac i fwynhau cyfoeth diwylliant ac iaith.

## Yn ail: Isabel Irma Roberts

Ganwyd Irma yn yr Ariannin, a magwyd yn llwch a haul y Wladfa Gymreig yn Nyffryn Camwy, talaith Chubut, yn yr ardal a elwir Bethesda, lle ymgartrefodd ei thaid, Thomas Roberts, enedigol o Ffestiniog, ar ffarm a alwyd yn Tyddyn Du.

Yn ystod ei phlentyndod ac ieuenctid, mynychai gapel Bethesda, a chafodd fagwraeth o dan ddylanwad yr efengyl. Yn yr Ysgol Sul dysgodd i ysgrifennu yn Gymraeg, a chanu, a deil i gyflawni hynny hyd heddiw. Tyfodd yn sŵn y pethau gorau, ac er mae amaethu oedd galwedigaeth ei thad, Gordon o ddydd i ddydd, cofier mai cymdeithasu gyda eraill, oedd yn llanw oriau hamdden y teulu, yn arbennig er mwyn cystadlu mewn cyrddau cystadleuol ac eisteddfodau. Cafodd gyfle hefyd i gyfrannu i wahanol bwyllgorau dros y blynyddoedd yn union fel y gwnaeth ei rhieni.

Priododd gyda Ieuan Morgan Williams, ef hefyd yn enedigol o'r Wladfa, o ardal Bryn Crwn. Ymgartrefasom ar ffarm Tŷ Newydd, ac yno derbyniasom amryw o ymwelwyr o Gymru dros y blynyddoedd. Daliasom i ganlyn y traddodiadau gorau y Cymry a dysgeidiaeth a etifeddasom o'n rhieni, gan eu trosglwyddo i'n plant. Cafodd hwythau y fraint o ddysgu iaith ein cyndadau ar yr aelwyd, oherwydd nid oeddynt yn gallu gair o Sbaeneg pan aethant i'r ysgol ddyddiol. Ac nawr mae ein wyrion yn cael y cyfle i fanteisio ar ddysgu Cymraeg efo'r athrawon sydd yn dod i'r dyffryn yn gyson, ond mae Nain yn dal i siarad yr hen iaith annwyl efo nhw. Bellach rwyf yn cynorthwyo yn ein capel Bryn Crwn, fel ysgrifennydd a thrysorydd. Hefyd ers sawl blwyddyn, rwyf yn Gadeirydd yr Eglwysi Rhyddion y Wladfa sydd yn estyn croeso i ymwelwyr sydd yn dod i Gapel Bryn Crwn, ac eleni rwyf yn tybio, caf adrodd yr hanes wrth sawl un fydd yn troi i mewn a sydd am ymuno â ni yn yr achlysur arbennig yma o ddathlu cant a hanner o flynyddoedd ers pan laniodd y Cymry dewr, ar y llong *Mimosa* ar y traeth yn Porth Madryn.

## Yn drydydd: Wendell Davies

Ganwyd Wendell yn rhan uchaf Dyffryn Camwy, talaith Chubut yn yr Ariannin, ar aelwyd ei daid, Robert Evans. Yno y dysgodd siarad Cymraeg, ond yn anffodus mae'r iaith ag angen llawer o ymarfer fel y gwn yn dda.

Fe'm magwyd ar y ffarm, a dyma'r amser hapusach fy mywyd. Cyn bo hir, pan oeddem tua tair ar ddeg oed, symudodd fy rhieni i fyw i ffarm yn ardal Dolavon. Bu hyn yn fantais iddo oherwydd yr oedd yn agosach i Drelew, lle teithiai bob dydd i'r ysgol uchradd ar fws. Ar ôl graddio, a bellach cafodd gyfle i gael swydd yn y Midland Bank gan weithio yna hyd y flwyddyn 1975, pan symudodd i fanc Talaith Chubut hyd nes ymddeol.


Yr oedd Wendell yn un o'r rhai cyntaf i chwarae rygbi yn y dyffryn, gyda'i ffrindiau. Sefydlwyd clwb profiadol talaith Chubut, yr unig rhai o'r dalaith, gan gynrychioli Chubut trwy Ariannin a'r byd mawr. Yn wastad dros y blynyddoedd, bu yn brysur a chydweithio a gwahanol bwyllgorau diwylliannol a gyda chwaraeon.

Erbyn hyn rwyf yn perthyn i gymdeithas Dewi Sant yn Trelew ers trideg saith o flynyddoedd, un ar bymtheg fel Cadeirydd, ac undeg chwech arall fel Trysorydd. Rwyf wrth fy modd yn actio, ac efelychu, ond heb fod yn rhy lwyddiannus gan gyfranogi dros y blynyddoedd yn Eisteddfod y Wladfa. Yn 2015 rwyf yn dal yn fy swydd fel Cadeirydd Cymdeithas Dewi Sant, Trelew am flwyddyn arall beth bynnag.

Mae'n fraint gen i gael bod yn Lerpwl i Ŵyl y Mimosa, ar achlysur arbennig iawn, sef cant a hanner o flynyddoedd ers pan hwyliodd y Cymry dewr ar y llong *Mimosa* o'r porthladd prysur hwn i Ariannin.

## Cyfle i brynu y Mimosa

Bydd
Wayne Jones,
Llandeilo
yn gwerthu print
(£150)
o'r llun hwn
yn yr Ŵyl



## CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2015

**Cynhelir y gystadleuaeth uchod yng Nghlwb Golff Woolton, Ffordd Speke, Lerpwl L25 7TZ ar Ddydd Mercher, 16 Medi.**





Mae'n agored i ferched a dynion.
**ELW AT WAITH YSBYTAI LERPWL I GYMRY LERPWL A CHYMRU**
Cost £35 yr unigolyn neu £150 am dîm o bedwar yn cynnwys cinio ysgafn, gêm 18 twll, swper a gwobrau anhygoel !!
*Am fwy o fanylion cysylltwch â Dr John Williams ar*
doctorjohnwilliams@btinternet.com

# EIN GWEINIDOGAETH FEL EGLWYSI

***Ymateb John P. Lyons i bapur trafod Eglwys Bresbyteraidd Cymru***

Ers blynyddoedd nid yw'r drefn o weinidogaethu'r enwad wedi bod yn gwbl foddhaol i'r gweinidog na'i braidd. Mae'r 'papur trafod' yn dadansoddi heb roddi atebion nac arweiniad – efallai'n fwriadol, ond ceisiaf fy ngorau i ymateb.

Erbyn hyn diadellau bychain o bob hŷn ydyw'r rhan fwyaf o'n heglwysi. Yr aelodau at ei gilydd yn teimlo y gwnânt ddal ymlaen tra medrent gyda phwysau cynyddol am adeiladau sydd yn drwm a chyfraith gwlad yn eu gorfodi i wario'n ddiderfyn ar iechyd a diogelwch. Llawer yn poenydio ynglyn â'i gofalon fel ymddiriedolwyr neu yn rhoi pennau yn y tywod a'i anwybyddu. Am fod cysylltiad teuluol a hir gysylltiad yn clymu hwy â'r capel gwrthodant uno ag eglwysi cyfagos na addasu yr Achos i ofynion 2015. Maent mewn lle cyfyng. Mae hanner ein heglwysi yn ddifugail a'r lleill yn rhannu gweinidog gyda nifer fawr o eglwysi eraill. Nifer fawr o gapeli yn dewis bod yn ddifugail i arbed arian. Gwelant y Cyfundeb yn rhwystr di-fudd sydd yn rhoddi ychydig iawn o gymorth iddynt i barchu yn eu cymunedau.

Prinhau a heneiddio mae'r mwyafrif o'n gweinidogion. Cawsant eu cam-drin gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2007-08 wrth ei gorfodi i ymddeol pan oedd cymaint yn awyddus i ddal ymlaen yn eu galwad. Aeth rhai ohonynt i wasanaethu enwadau eraill. Ym mha le oedd ein gweledigaeth fel arweinwyr ar y pryd? A gawsom ni ein cam arwain gan y Gymanfa Gyffredinol? Dim ond 38 o weinidogion llawn amser sydd bellach ar gyfer bron i 24,0000 aelodau yn golygu cyfartaledd o 630 yr un. Wrth gwrs mae gennym weinidogion rhan amser ac eraill sydd wedi ymddeol ac yn gwasanaethu bron yn llawn amser. Ond prinhau mae ein hadnoddau bugeiliol a'r baich yn trymhau. Credwn mai galwad ydyw bod yn Weinidog yr Efengyl ond anodd iawn dweud wrth yr ifainc ac ymgeiswyr bod y cyfleusterau sydd ar gynnig gan yr Enwad yn ddeniadol. Credaf na allwn ddisgwyl i'n ychydig weinidogion gyflawni mwy o waith am eu bod o dan bwysau cynyddol yn barod.

Beth a wnawn? Wrth edrych yn ôl yn ein hanes roedd eglwysi o bob enwad yn hollol bwysig ym mywydau'r aelodau a'r gymdeithas o'u cwmpas. Y gweinidog yn hawlio parch ac yn cael ei gynorthwyo gan garfan hierarchaidd o flaenoriaid, diaconiaid a gweithwyr eraill. Mae'r Wladwriaeth Les wedi mynd a'r gofalon cymunedol oddi arnom ond tebygol yw y daw'r argyfwng a chyfleuon eto i'n rhan. Rydym yn ymwneud a'r banciau bwyd ac ariannu trychinebau bydol ond mae llawer mwy o anghenion ar y gorwel. A ydym yn barod?

Fel y dywed y *Papur Trafod* ni sefydlodd Iesu Grist adeilad yn eglwys iddo. Llewyrchus iawn oedd gweinidogaeth ein arloeswyr, Howell Harris, Daniel Rowlands, William Williams, Pantycelyn a Thomas Charles. Eto nid sefydlu eu hunain mewn gofalaethau a wnaethant hwythau ond teithio drwy Gymru a thu hwnt i bregethu'r Efengyl gan ddenu miloedd i wrando a phrofi nerth yr Ysbryd Glân. Mae man cyfarfod rheolaidd yn ddeniadol ac yn bwysig ond nid pan mae yn mynd yn faich i'w gynnal ac ond ychydig ddefnydd yn cael ei wneud ohono. Mae fy aelodaeth i yn Lerpwl wedi symud ymlaen ers 1966 o eglwys hardd Stanley Road, Bootle i'r uno yn Waterloo. Deg mlynedd yn ôl gwerthwyd capel Waterloo a chawsom fangre i gynnal ein hoedfaon yn Gymraeg yn adeilad yr Anglicaniaid yn Christ Church sydd dros y ffordd i'n hen gapel. Mae nifer yr aelodau wedi gostwng o tua dau gant i ugain o aelodau dros y blynyddoedd ac ond hanner y rhain yn gallu mynychu'r oedfaon yn awr. Nid oes aelodau newydd wedi ymuno ac nid oes plant na phobol ifanc gennym. Heblaw ein bod ar wasgar buasem wedi uno gyda'r unig eglwys Gymraeg arall yn Lerpwl sef Bethel, Heathfield Road.

Diflas ydyw gorfod dweud fod cyfleon i uno yn ddidrafferth gan nifer o'n heglwysi yn Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain wedi ei wrthod. Maent fel yn mynnu bod oddi allan i'r gymdeithas glos a chariadus i Gristionogol a'i brwdfrydedd dros yr Efengyl yn oeri. Mae ei blaenoriaethau yn gwbl wallus gan roddi Cristionogaeth a'r Efengyl yn eilradd i gynnal adeiladau sydd o'r byd hwn ac yn dadfeilio o flwyddyn i flwyddyn. Rhai o'r capeli heb flaenoriaid a heb gysylltiad â'i Dosbarth na'r Henaduriaeth ac yn gweld dim budd mewn bod yn perthyn – braidd nad ydynt yn annibynnol a mynd ar eu trywydd eu hunain. Does ryfedd nad ydynt eisiau talu'r dreth Gyfundebol i'r swyddfa ganolog yng Nghaerdydd.

Mae prinder Gweinidogion yn arwyddo argyfwng pendant. Caniateir i ofalaethau alw bugail ond fel y clywsom yng Nghymdeithasfa'r Gogledd nid oes llwyddiant i'r ymchwil – neb am symud a dim ymgeiswyr ar y gorwel. Mewn adroddiad yn y 'Goleuad' yn ddiweddar soniwyd am wraig ddewr yn cael ei sefydlu yn Weinidog ar ddeg o eglwysi yn Nyffryn Conwy.

Dyna goflaid o gyfrifoldeb a gwlad eang i'w fugeilio. Ni ddylem ganiatau hyn ond beth a wnawn?

Mae pobol ysbrydoledig yn ein heglwysi yn ceisio gwasanaethu ac arwain ond nid ydym o ddifrif yn chwilio am eraill atom ac yn eu denu. Oddi allan i fyd crefydd mae'r cwmniau yn mynd allanac ymdrechu i ddarganfod a denu'r goreuon drwy gynnig cyfleusterau – ie ac arian sylweddol. Beth a wnawn ni? A ydym wedi rhoddi digon o bwyslais ar ddenu chwiorydd i'r weinidogaeth? Mae'r ychydig sydd gennym yn gwneud gwaith ardderchog a gwragedd yw'r mwyaf bellach yn ein cynulleidfaoedd ar y Sul. Dynion ydyw'r rhan fwyaf helaeth o'n blaenoriaid ond mae'r sefyllfa yn newid; mwy oherwydd rheidrwydd nac o ddewis. Gwelwn yr un sefyllfa yn yr Eglwys Anglicanaidd gyda gwrthwynebiad wedi bod i fenywod fod yn esgobion. Mae'r oes ac agwedd tuag at arweinyddiaeth merched wedi newid ers dyddiau'r Beibl. "Da iawn" rwy'n credu buasai Crist ein gwaredwr yn dweud am hyn. Pan edrychwn ar gymdeithas y Mwslemiaid heddiw gwelwn mor annheg a gwarthus mae eu triniaeth o wragedd yn arbennig mewn gwledydd fel Pacistan ac Afganhistan.

Mae gennym hefyd bobl sydd ag adnoddau, amser, doniau oddi allan i'r Weinidogaeth Ordeiniedig sydd i'w datblygu wrth gael eu defnyddio. A ydym yn gwneud y mwyaf allem ohonynt? Yn aml iawn yr ychydig sydd yn blaenori a gwneud y gwaith o ddal ati. Heblaw am ewyllys da'r ychydig arweinyddion hyn buasai tystiolaeth Gristionogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi pallu. Dywedaf hyn wrth edmygu'r gwaith aruthrol sydd yn cael ei wneud. Mae'r *papur trafod* yn rhestru dewisiad Duw o arweinwyr (rhai mwyaf annhebyg i'r disgwyliad) a sut, dylent wneud y gwaith. Nid oes *'blue print'* felly mae pob un ohonom a phosibiliadau fod ymhlith y cynheiliaid.

Ofnaf ein bod wedi colli ein gweledigaeth Ysgrythurol o bwrpas yr Eglwys. Rhaid cael trefn ond mae ein trefniadaeth wedi mynd yn holl bwysig a bod yn brif amcan ein bodolaeth. Mae ein Swyddfa yng Nghaerdydd yn gweithio'n ddiwyd am bum diwrnod o bob wythnos gydol y flwyddyn gyda phedwar o weinidogion llawn amser a llu o weithwyr cyflogedig. Ar y llaw arall mae ein heglwysi yn agored ar y Sul – llawer heb fod ar agor bob Sul – gydag un gwasanaeth am tuag awr. Cawn bwyllgorau fil ynglŷn â'n 'strategaeth' a'r 'Ffordd Ymlaen' heb ddod a ni yn nes at ein pwrpas mewn bywyd. Bydd y niferoedd o gynrychiolir yn fwy yn y gwahanol gyfarfodydd hyn na fydd yn ein capeli i addoli Duw. Mae yn amser deffro a chwilio am arweiniad a phwrpas i'r eglwys leol yn arbennig.

Beth yw ein hatebiad? Un ateb oedd anfon allan bapur trafod ar 'EIN GWEINIDOGAETH' gan Adran Gweinidogaethu Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth. Credaf fod yr Adran wedi treulio llawer o amser yn dadansoddi a rhoddi'r dystiolaeth ger ein bron. Mae'r broblem yn glir ond ni welaf arweiniad ganddynt hwy chwaith.

Gwelaf yn bersonol fy nhasg fel edrych ar ôl yr ychydig o ffyddloniaid sydd yn Eglwys, Waterloo a chydweithio a'n chwaer eglwys Bethel, Heathfield Road sydd yn ceisio dal y tir a symud ymlaen mewn cenhadaeth a chynrychioli hyd y gellir. Cydnabyddir fod problemau dros Glawdd Offa yn wahanol i'r rhai yng Nghymru.

Yn gyntaf rhaid edrych ar ôl ac arwain y praidd sydd gennym. Mae hyn yn ddyletswydd sydd yn hynod o bwysig ym mlaenoriaethau'r Deyrnas ac ni ddylid am eiliad anghofio'r cyfrioldeb.

Yn ail, fel arweinwyr a Christionogion rhaid mynd allan i'r byd i efengylu a dangos a dweud wrth ein cyd-ddynion am ragoriaethau ein bywyd ysbrydoledig. Mae'r ddau beth yn rhwymedig ond yn hollol wahanol a dylai ein strwythurau adlewyrchu hyn. Gwelaf rai gweinidogion yn fugeiliaid ac eraill yn genhadon. Mae'r eglwysi yn methu cynnal eu hunain yn llwyr ac yn cael eu sybsideiddio yn ganolog o'r enwad. Rhaid gofalu yn haelionus am ariannu'n gweinidogion (eu pensiynau) a'n gweithwyr yn y maes. Dylem wario yr arian a gawn am ein heiddo i genhadu mewn amryw ddull a modd. Byddai hyn yn cael ei wneud yn nyddiau cynnar yr enwad wrth anfon allan genhadon i'r India a'i ariannu gan yr eglwysi brwdfrydig.

Nid ydyw'r Cyfundeb wedi ceisio trefnu lleoliad ein gweinidogion ordeiniedig ac y mae anghysondeb ac annhegwch yn y gwasanaeth gweinidogaethol sydd ar gael drwy Gymru. Nid oes gennym yr adnoddau na'r modd i lenwi i pob gofalaeth a dylem orffen gyda'r ffordd yma o gyfeirio gweinidogaeth. Buddiol fyddai i'r holl weinidogion sydd wedi ei ordeinio gan yr enwad gyfarfod mewn cynhadledd i drafod a datrys y sefyllfa a rhoddi ei gweledigaeth a'i harweiniad i ni'r lleygwyr. Mae cymaint mwy ohonom yn barod i rannu'r baich ond yr ydym ag angen arweiniad.


Credaf yn gydwybodol mai gweinidogaeth 'tîm' yw'r cynllun am y dyfodol i Eglwysi Bresbyteraidd Cymru.

Rhaid sefydlu gweiniodogion ar gynllun canolog i Henaduriaeth ac nid i ofalaeth. (Mewn gwirionedd nid oes gennym aelodau di-fugail ond ffug beth i arbed talu'r dreth yw'r drefn honno). Rhaid inni weddïo a thrafod a pherswadio pobl i ystyried y weinidogaeth costied a gostio.

Credaf fod ein strwythyr rheolaeth yn rhy bendrwm. Cynllun ar gyfer miloedd o aelodau sydd gennym a channoedd o eglwysi ac y mae yn sugno gormod o'n hadnoddau a'n hamser o ran ein gweinidogion ordeiniedig a'n harian. Mae'r swyddfa yng Nghaerdydd i'w weld yng ngolwg llawer o'r eglwysi yn rhwystr drud a di-effaith.

## ADOLYGIAD

***Defosiwn Gŵyl y Pasg,*** casglwyd gan D. Ben Rees, Cyhoeddiadau'r Gair, 2015, 262 tudalennau, ISBN 978185994748, Pris £8.99




Dyma Flodeugerdd hynod o ddefnyddiol i fyfyrio ynghylch y Grawys a'r Pasg. Criw amryddawn sydd gan Dr. Rees i gadw cwmni iddo, yn ymestyn o Emrys ap Iwan i Saunders Lewis. Fe geir cerddi yma gan Robert ap Gwilym Ddu, R. Geraint Gruffydd, Rhydwen Williams, David Charles, Cynan, Dic Jones, Golyddan, Gwilym Hiraethog, T. E. Nicholas, Pedr Fardd, Ann Griffiths, Emrys, Dyfed, T. Gwynn Jones, ac eraill lawer.
Ond ceir pytiau sylweddol o ryddiaith hefyd gan Owen Evans, Calfin, Casi Jones, Pennar Davies, Emyr Roberts, Llawlyfr Gweddi 2004 -2005, yn y blaen. Felly, mae yna gryn amrywiaeth o ran cynnwys ac arddull yn y gyfrol. Carwn amlygu'r math o sylwedd sydd yma drwy ambell ddyfyniad.
Mae gan y golygydd ei hun ddiffiniad paradocsaidd ond addas o 'Ympryd': sôn y mae am ympryd fel gwledd! *"Cofiwn mai'r hyn sydd y tu ôl i ymprydio cywir yw ein hadnabyddiaeth ohonom ni ein hunain. Sylweddoli a wnawn ein bod yn ffaeledig ac yn gwbl amddifad o gyfiawnder Duw a grasusau adnewyddol Iesu. A bod yn gwbl onest, pobl â thraed o glai ydym; mewn geiriau eraill, pobl a syrthiodd yn fyr o'r nod, o'r uchel alwedigaeth yng Nghrist Iesu. Mae angen maddeuant arnom. Rhaid i ni gofio o hyd ac o hyd am wyrth gras Duw, a'i drugaredd a'i gariad hael at bobl. Deuwn gyda'n gilydd i wleddoedd yr Efengyl."*

Dyna enghraifft o'r annisgwyl a'r newydd sy'n dod i'r golwg o hyd ac o hyd yn y llyfr. A charwn enghreifftio drachefn drwy ddyfyniad arall. Un o'r enwau dieithr i lawer fydd Olaf Davies sy wedi addasu gwaith Nick Fawcett. Mae ganddo yntau duedd i ymhyfrydu ym mharadocs Cristnogaeth. Dyma un o'i weddïau:

Arglwydd Iesu Grist,
gwared ni rhag cymysgu gwerthoedd y byd hwn
a'th werthoedd di,
a rhag ystyried dy deyrnas fel un sy'n ei gwthio'i hun ar bobl –
yn pwyso,
yn gorfodi.
Dysg i ni mai ffordd cariad yw dy eiddo di,
ffordd sy'n gwahodd ymateb.
Helpa ni felly i ymwadu a ni ein hunain,
er mwyn darganfod pwy ydym mewn gwirionedd:
i fod yn olaf er mwyn bod yn gyntaf,
i golli ein bywyd er mwyn ei ddarganfod,
i gerdded ffordd frenhinol y groes.
Amen.

Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies.

Fel y gwelir, gellir cymeradwyo'r gyfrol gyfoethog hon ar gyfer defnydd mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu mewn myfyrdod personol. A bydd y darllenydd yn siŵr o ddarganfod llawer iawn o ameuthunion newydd ynddi.
Mae arnom oll ddyled drom i Dr Rees am ei ymroddiad syfrdanol yn ychwanegu at ein defosiwn yng Nghymru, ac nid yn unig yng Nghymru (ond fel nad yw'n blino ar ein hatgoffa!) – hefyd dros y ffin.

***Bobi Jones***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Gorffennaf 2015 –** erbyn bore Llun, 1 Mehefin – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

ii) **Rhifyn Awst/Medi 2015** – erbyn bore Mercher, 1 Gorffennaf 2015 – y lluniau, adroddiadau etc.

iii) **Rhifyn Hydref 2015 –** erbyn bore Iau, 1 Medi 2015 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## Cyfle i glywed yr Ifanc yng Ngŵyl Mimosa

**THEATR AR GYFER POBL IFANC**
**CLWYD THEATR CYMRU**

*Cyfarwyddwr:* Tim Baker. *Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerddorol:* Dyfan Jones

***Cynhyrchiad ysbrydoledig! Un o'r cynhyrchiadau gorau dw i weld ei weld*** - R. Snelson (The Spirit of the Mimosa)

*Fy Nhir, Fy Mhobl, Fy Iaith*

**Patagonia –** 150 o flynyddoedd yn ôl, yn 1865, hwyliodd llong **Mimosa** o Lerpwl am Batagonia. Ar ei bwrdd roedd criw o deuluoedd gobeithiol o Gymru; dynion, merched a phlant a oedd wedi ymrwymo i sefydlu cymuned Gymraeg 7,000 o filltiroedd i ffwrdd ym Mhatagonia, lle gallent siarad eu hiaith eu hunain a byw eu bywydau heb gael eu herlid. Er gwaetha'r anawsterau, llwyddo fu eu hanes ac mae cymuned Gymraeg ei hiaith ym Mhatagonia hyd heddiw.

Mae **Mimosa** yn dathlu'r gamp hon drwy ail-greu'r siwrnai a'r cyrraedd yng "ngwlad yr addewid." **Mimosa** yw stori fawr y Cymry. Yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn, bydd criw o bobl ifanc o Gymru a Phatagonia'n ymuno â'n tîm proffesiynol ac yn teithio i Batagonia i berfformio **Mimosa** i ddisgynyddion y teuluoedd hynny. Rhagor o fanylion ar ein gwefan ctctyp.co.uk

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

**PEARSON COLLINSON**

***TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL***

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514